CYNLLUN HYFFORDDI CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED 2023/2024

1. RHAGYMADRODD

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol o dan Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i lunio a chyhoeddi Cynllun Hyfforddi a Datblygu, sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ei Gynghorwyr a'i staff.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod Cynghorwyr a staff ar y cyd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol.

Bydd y cynllun hwn yn caniatáu i hyfforddiant gael ei gynllunio mewn ffordd gymesur, gan ystyried ffactorau megis gweithgareddau a wneir gan Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed, pa arbenigedd sydd gan y Cynghorwyr a'r Clerc ar hyn o bryd, a nodi'r anghenion hyfforddi a datblygu sydd ei hangen i gylawni eu rolau. *Rhaid gwneud cynllun hyfforddi o fewn tri mis ar ôl pob Etholiad Cyffredin o Gynghorwyr Cymuned i'r Cyngor.

2. **CYNLLUN HYFFORDDI I GYNGHORWYR**

Mae meysydd craidd i fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod gan holl aelodau'r Cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol,
sef:

- Anwytho Sylfaenol i Gynghorwyr

- Y Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr

- Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu

Mae Un Llais Cymru yn darparu amserlen fisol o'i gyrsiau. Mae'r rhain yn cael eu dosbarthu gan y Clerc i bob aelod. Mae cynghorwyr i nodi eu hanghenion hyfforddi ac i gysylltu â'r Clerc er mwyn archebu'r hyfforddiant/digwyddiad(au). Gall cynghorwyr nodi cyfleoedd hyfforddi eraill a fydd yn cael eu hystyried yn ofalus gan y Cyngor ar sail perthnasedd a chost.

- Dylai Cynghorwyr ymgyfarwyddo â Chyhoeddiad Llywodraeth Cymru "Canllaw y Cynghorydd Da" . Mae'r Clerc wedi dosbarthu'r fersiwn diweddaraf drwy e-bost.
- Rhaid i Gynghorwyr fynychu Hyfforddiant Côd Ymddygiad

3. **CYNLLUN HYFFORDDI AR GYFER CLERC / SAC** (Swyddog Ariannol Cyfrifol)

Er mwyn sicrhau bod gan y Clerc/SAC ddigon o sgiliau a dealltwriaeth i alluogi'r Clerc i weithio'n effeithiol o fewn ei rôl, mae cyrsiau hyfforddi ar gael ar wefan Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'n rhaid talu ffioedd aelodaeth i'r CCCL (SLCC) er mwyn i'r Clerc gael mynediad i'r hyfforddiant sector-benodol hwn.

- ILCA - Cwrs Cyflwyniad i Weunyddu Cynghorau Lleol - wedi'i gwblhau yn 2021.

- ILCA i CILCA - i'w gwblhau yn ystod 2023
- FILCA - i'w gwblhau 2023 - 2024

4. **TABL ANGHENION HYFFORDDI**

Mae anghenion hyfforddi Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed wedi eu gosod allan yn y tabl isod:

** yn dynodi bod 2 le am ddim ar gael bob blwyddyn.

WHO	WHAT	HOW	WHEN	COMMENTS
CYNGHORWYR NEWYDD A RHAI SY'N DYCHWELYD	Hyfforddiant Sefydlu Sylfaenol			I ADOLYGU ANGHENION HYFFORDDIANT BOB 3 MIS
CYNGHORWYR NEWYDD	Hyfforddiant Sefydlu Cyng. Newydd			
POB CYNGHORYDD	Hyfforddiant Côd Ymddygiad	Robert Edgecombe Cyngor Sir Gâr	12/06/23 2 p.m. 24/07/23 6 p.m.	
POB CYNGHORYDD	Hyfforddiant Côd Ymddygiad	Un Llais Cymru Modiwl 9 **	Erbyn 31.12.23 Dewisol os mynychwyd y cwrs uchod.	
POB CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD	Sgiliau Cadeirio	Un Llais Cymru Modiwl 10	Erbyn 31.12.23	
POB CYNGHORYDD/ CLERC	Deall Cyllid Llywodraeth Leol (Sylfaenol)	Un Llais Cymru Modiwl 6 **		
POB CYNGHORYDD/ CLERC	Deall Cyllid Llywodraeth Leol (Lefel Uwch)	Un Llais Cymru Modiwl 21 **		
POB CYNGHORYDD/ CLERC	Dealltwriaeth o'r Gyfraith	Un Llais Cymru Modiwl 4 **		
POB CYNGHORYDD	Cymorth Cynllunio Cymru	Cymorth Cynllunio Cymru ac eraill		
POB CYNGHORYDD/ CLERC	Y Cyngor fel Cyflogydd	Un Llais Cymru Modiwl 3**		
CLERC	ILCA i CILCA	S.L.C.C.	Erbyn 31.12.23	
CLERC	FILCA	S.L.C.C.	Yn ystod 2023/2024	